

**2015 Rhif 1288 (Cy. 95)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (I'r  
Gogledd o Gomins Coch i Bow  
Street, Ceredigion) (Cyfyngiadau  
Cyflymder a Dim Goddiweddyd  
Dros Dro) 2015**

*Gwnaed* 26 Mawrth 2015

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (I'r Gogledd o Gomins Coch i Bow Street, Ceredigion) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2015.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 1 Ebrill 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r C1007, i'r gogledd o Gomins Coch at bwynt 565 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 yn Bow Street.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### **Atal Dros Dro**

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Bow Street, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2005(3) drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,  
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion  
Cymru.

Dyddiedig

26 Mawrth 2015

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 2005/122 (Cy.11)